Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Mawrth 23ain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 7 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Geraint Williams, Colin L Hughes, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref)

Ymddiheuriadau: Cyng. Shereen Devine, Colin Hughes, Rob Parkes (cadeirydd), Brian Davies, Philip Stevens, Medwyn Williams.

Yn absenoldeb y cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng Raymond Bartley

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

222. Materion Brys: Nid oedd unrhyw fater brys.

223. Datganiad Diddordeb Personol: Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Mark Young - eitem agenda 8(1)(1) - cynllunio - Clwb Pêl droed Tref Dinbych
(2) Cyng Geraint Williams - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(4) Cyng Raymond Bartley - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.

224. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 23ain 2015 a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Fawrth 9fed 2015.

225. Materion yn codi: 23.2.15: (1) Cofnod 203 - cylchfan Pwll y Grawys. Mewn ateb i gwestiwn, dywedodd y Cyng Geraint Williams nad oedd mwy i'w adrodd.
(2) Cofnod 209(4) - Plas Pigot. Dywedodd y Cyng Raymond Bartley fod pwyllgor newydd wedi ei apwyntio a bod y dyfodol yn edrych yn dda.

9.3.15: Nid oedd unrhyw fater yn codi.

226. Adroddiad y Maer. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer.

227. Llythyrau a Hysbysiadau: 1. Cytunwyd i nodi dwy eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Nodwyd yr e-bost yn diolch oddi wrth Mair Edwards ar ran Clwb Rygbi Dinbych. Cymeradwywyd y cais i ddefnyddio "logo" y Cyngor ar ddillad y tîm dan 16 oed.
(2) Cymru mewn blodau. Nodwyd yr e-bost a dderbyniwyd. Dywedodd y Cyng Geraint Williams fod Lyf Lôn wedi bod yn cystadlu ers rhai blynyddoedd. Dywedodd y Cyng Margaret Bowe y byddai yn son am y gystadleuaeth wrth Ysgol Pendref.
(3) Ymateb e-bost oddi wrth Mike Jones (CSDd) ynglŷn ag ymweliad safle y Stryd Fawr. Dywedwyd fod y dyddiadau a roddwyd braidd yn fyr. Cytunwyd i awgrymu fod yr ymweliad yn cymryd lle ar ôl y Pasg a bod digon o rybudd yn cael ei roddi.
(4) E-bost ynglŷn â gwahoddiad i Eisteddfod y Coleg ar Ebrill 24ain 2015. Y Cyng Gaynor Morgan Rees, Gaynor Wood, Roy Tickle, Raymond Bartley a Catherine Jones yn mynychu.
(5) E-bost oddi wrth Gymdeithas Ddinesig Dinbych ynglŷn â Drysau'n Agored. Cytunwyd i gyfarfod a'r gymdeithas ddinesig a chlerc y dref i drefnu dyddiad.

228. Cynllunio: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 36, Parc Mytton
(2) Tir ym Mharc Clwyd
(3) Uned 1, Vale Park, Llwyn Goch, Stâd Ddiwydiannol Colomendy
(4) Clwyd House, Erw Las, Stâd Ddiwydiannol Colomendy
(5) Clwb Pêl Droed Tref Dinbych

2. Materion Cynllunio eraill: Nid oedd unrhyw fater arall.

229. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor (1) Is Bwyllgor yr Amgylchedd; Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gymeradwyo pob un o'r argymhellion oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion.**
Cymeradwywyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Paul Liversidge ynglŷn â chlirio llwybrau.
Cymeradwywyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Ganolfan Garddio Greenfingers ar gyfer blodau ar Neuadd y Dref a thu allan i'r Llyfrgell.
Nodwyd yr e-byst a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â gwneud i ffwrdd a'r cynhwysion blodau pren yng nghanol y dref. Dywedwyd ei bod hi'n hanfodol fod y palmant lle'r oedd y cynhwysion yn cael ei lanhau ar ôl eu symud.
Dywedwyd fod goleuadau muriau'r dref ym Mryn Parc ddim yn gweithio - i gysylltu â Cadw.

(2) Is Bwyllgor Archwilio a Phersonél: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gymeradwyo pob un o'r argymhellion oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion.**

(3) Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

(1) Cae Dai - Gohiriwyd ymhellach am fwy o wybodaeth.
(2) Clwb Bowlio Dinbych - £2,650 (A.137)(Rhif siec 005589)
(3) Coleg Llandrillo Dinbych - £700 (A.145)(Rhif siec 005590)
(4) Make the Most of the Carriageway CIC - £2,000 (A.137)(Rhif siec 005591)
(5) Cyngor Eglwysi Plwyfol Dinbych - £3,000 (A.215(6))(Rhif siec 005592)

229. Adroddiadau: (1) Goleuadau Nadolig. Ystyriwyd a chymeradwywyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref ar gyfarfod diweddar. Clerc y dref i weithredu fel bo angen.

(2) CCTCGC. Ystyriwyd a derbyniwyd crynodeb fer ysgrifenedig clerc y dref. Ynglŷn â chynrychiolwyr y cyngor ar weithgor y rali geir, cadarnhawyd y byddai'r Cyng Colin Lucas Hughes a Shereen Devine yn cynrychioli'r cyngor tref gyda'r Cyng Catherine Jones fel eilydd.

(3) Dywedodd y Cyng Mark Young ei fod wedi mynychu noson codi arian a drefnwyd gan yr Uchel Siryf pan godwyd £15,000.

(4) Ysgol y Santes Ffraid. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Geraint Williams ynglŷn â chyfarfod diweddar y llywodraethwyr. Roedd angen i'r ysgol gynhyrchu rhagamcaniad tair blynedd - roedd y dyfodol yn edrych yn ddifrifol.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

230. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Geraint Williams: Cymeradwywyd ariannu ar gyfer estyniad i gym y Ganolfan Hamdden.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) Ail-wynebu gwaelod Stryd y Parc i gymryd lle, yn obeithiol, ar ôl y Pasg. (2) Caniatawyd cais Rotary i enwi ffordd osgoi Dinbych fel Ffordd Rotary. Bydd angen i Rotary ariannu'r arwyddion. (3) Arwyddion ar gyfer Inffyrmari Dinbych ar ddigwydd - y Bwrdd Iechyd yn talu. Byddai costau arwyddion tua £6,000. (4) Lôn Ganol - Y Comisiwn Elusen wedi dyrannu'r safle i GSDd.

231. Cyfrifon 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

(1)	Sandra Williams - gwasanaeth cyfieithu 9.2.15 & 23.2.15 (Rhif siec. 005583)	-	£224.40
(2)	Clerc y Dref - costau teithio (Conwy) (Rhif siec. 005584)	-	£22.51
(3)	Cathedral Frames - fframio llun y cyngor (Rhif siec. 005585)	-	£55.00
(4)	Zen Internet Ltd - darpariaeth ADSL (Ebrill) (Rhif siec. 005584)	-	£18.37
(5)	Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Chwefror) (Rhif siec. 005585)	-	£8.82
(6)	Ernest Martin - Cloi ac agor giât gardd Dr E P (Rhif siec. 005586)	-	£60.00

Cyfanswm taliadau: £389.10

2. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Rhoddwyd awdurdod i glerc y dref / swyddog cyllid i dalu unrhyw gyfrifon a dderbynnir hyd at ac yn cynnwys Mawrth 31ain 2015 ac i adroddiad gael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf ar Ebrill 13eg 2015.
(2) Ystyriwyd a chymeradwywyd yr amcan bris a dderbyniwyd oddi wrth Lanes for Drains ynglŷn â gwaith yn adeilad yr hen Lysdy.
(3) Nodwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Zurich ynglŷn â pholisi yswiriant y cyngor.
(4) Nodwyd derbyn £2,326.35 oddi wrth HMRC sef ad-daliad TAW.

232. Trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol ar Fai 1af 2015: Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ar y trefniadau canlynol:

(1) O gymryd i ystyriaeth y gost o bostio - yr aelodau i gynorthwyo gyda dosbarthu'r gwahoddiadau.
(2) Nifer i wahodd. Atgoffodd clerc y dref y cyfarfod o'r cytundeb fod angen torri i lawr ar y gost ac awgrymodd fod gwahoddiad yn cael ei gyfyngu i un cynrychiolydd o bob cymdeithas. Yn dilyn trafodaeth fer **Penderfynwyd** (5 pleidlais i 4) **i'r gwahoddiad gael ei estyn i ddau gynrychiolydd o bob cymdeithas.**
(3) Lluniaeth - cytunwyd i logi S & T Catering.
(4) Ymarfer - nos Iau Ebrill 30ain 2015 am 6.30 o'r gloch.
(5) Y Cyng Colin Hughes i gynnig y Cyng Raymond Bartley yn Faer, eiliwyd gan y Cyng Mark Young. Os fyddai'r Cyng Colin Hughes yn methu a gwneud y Cyng Mark Young i gynnig gyda'r Cyng Roy Tickle yn eilio.
(6) Y Cyng Roy Tickle i gynnig y Cyng Margaret Bowe yn Ddirprwy Faer, eiliwyd gan y Cyng Colin Hughes. Os fyddai'r Cyng Colin Hughes yn methu a gwneud y Cyng Catherine Jones i eilio.
(7) Y Cyng Margaret Bowe i gynnig pleidlais o ddiolch i'r Cyng Rob Parkes, y Maer oedd yn ymddeol o'r swydd.
(8) Cyhoeddodd y Cyng Raymond Bartley fod y Sul Dinesig ar Orffennaf 5ed 2015 yn y Capel Mawr am 11 o'r gloch.

233. Datgan Diddordeb. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gary Williams, Swyddog Monitro CSDd. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i fabwysiadu ac addasu'r ffurflen datgelu a chofrestru buddiannau ar gyfer defnydd gan y cyngor tref.** Y ffurflen i'w defnyddio yn y flwyddyn fwrdeistrefol newydd.

234. Neuadd y Dref Dinbych - canmlwyddiant gosod y garreg sylfaen Mawrth 25ain 1915. Cafwyd manylion gan glerc y dref, fel y cyhoeddwyd yn y Denbighshire Free Press ar Fawrth 27ain 1915, am y seremoni a gymerwyd lle yn 1915 a hefyd dangosodd lun o'r gweithrediadau. Dau fater o ddiddordeb oedd bod yr ordd a ddefnyddiwyd gan y maer wedi ei gwneud o goed o hen adeilad y farchnad a bod capsiwl amser wedi ei osod o dan y garreg sylfaen. Roedd yn amlwg o'r adroddiad a'r llun fod yr achlysur wedi bod yn achos mawreddog.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.13 o'r gloch.

Arwyddwyd:..... (cadeirydd)

Dyddiad:.....